OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 833

## Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

### RHAN 1

Rhagarweiniol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Daw Rhan 2 a'r rheoliad hwn i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "DCRhT" ("*TCMA*") yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**);

ystyr "DTTT" ("*LTTA*") yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

(**1**) 2016 dccc 6.